**Rhif:** WG35128

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Canllawiau drafft ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb 2018

I gymryd lle Cylchlythyr 019/2010

Dyddiad cyhoeddi: 18 Chwefror 2019
Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 1 Ebrill 2019

© Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi am safbwyntiau ar y diweddariad i gylchlythyr 019/2010. Bydd y canllawiau anstatudol hyn yn cynnwys newid yr enw o Addysg Rhyw a Pherthnasoedd i "Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb" a bydd yn cynnwys 'dull ysgol gyfan' o ran y maes dysgu hwn. "Dull ysgol gyfan" yw cysylltu holl elfennau darpariaeth, polisi, staff a chymuned lleoliad addysg; gan annog cyfathrebu ac atgyfnerthu ethos cadarnhaol cyson a darparu cymorth cyfannol o ansawdd uchel i ddysgwyr. Yn ogystal ag ystyried sut bydd yr elfennau hyn yn cydweithio mewn lleoliad addysgol, bydd "dull ysgol gyfan" yn cynnwys sut maent yn cydweithio â gwasanaethau allanol i hwyluso mynediad dysgwyr i gymorth a chyngor priodol. |
| **Sut i ymateb** | Mae hwn yn ymgynghoriad ysgrifenedig, electronig. Mae cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori hon a gallwch gwblhau'r ffurflen ar lein, neu lawrlwytho a llenwi copi caled o'r ffurflen a'i phostio aton ni yn y cyfeiriad a ddarperir isod. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau amgen o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion – Canllawiau. Cylchlythyr 019/2010<br>https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/130425-sex-and-relationships-education-in-schools-cy.pdf<br><br>Informing the future of the Sex and Relationships Education Curriculum in Wales<br>https://www.cardiff.ac.uk/__data/assets/pdf_file/0016/1030606/informing-the-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales-web.pdf<br><br>Deddf Cydraddoldeb 2010<br>https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf<br><br>Deddf Hawliau Dynol 1998<br>http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents<br><br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)<br>https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_PRESS200910web.pdf<br><br>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br><br>https://gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/161104-national-strategy-cym.pdf<br><br>Deddf yr Iaith Gymraeg 1993<br><br>http://www.legislation.gov.uk/ukpga/1993/38/contents |

Safonau’r Gymraeg

https://gov.wales/about/welshlanguagestandards/?lang=cym

Mae’r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgynghoriadau <https://beta.gov.wales/consultations>

**Manylion cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Is-adran y Cwricwlwm ac Asesu
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: RSEGuidance@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau'r dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gall y gwaith hwn gael ei gomisiynu i'w gyflawni gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei gyflawni o dan gontract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn amlinellu gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'i gadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn eu cyfanrwydd hefyd. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw neu eich cyfeiriad gael ei gyhoeddi, nodwch hynny ar bapur pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb. Yna, byddwn yn tynnu'r manylion hyn cyn cyhoeddi'r ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata arall a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael gwybod pa ddata personol sydd wedi'u cadw amdanoch a chael gweld y data hynny
- gofyn i ni gywiro unrhyw ddata anghywir
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael eu dileu (dan rai amgylchiadau)
- gofyn am gludadwyedd data (dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Pam ydym ni'n diwygio'r canllawiau hyn? | 3 |
| Beth sydd wedi newid yn y canllawiau diwygiedig? | 4 |

## Cyflwyniad

Lluniwyd yr ymgynghoriad hwn i ofyn am eich safbwyntiau ar y diweddariad arfaethedig i'r ddogfen ganllaw *Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion* (cylchlythyr 019/2010), a fydd nawr yn cael yr enw "*Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion*".

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel yn helpu i greu cymunedau ysgol diogel lle gall disgyblion dyfu, dysgu a datblygu cydberthnasoedd iach, cadarnhaol weddill eu hoes. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ddysgu am y canlynol:

- Gwahanol fathau o gydberthnasoedd, fel cydberthnasoedd teuluol, anrhywiol a rhywiol;
- Swyddogaethau newidiol y corff dynol a sut mae'n dylanwadu ar gydberthynas;
- Dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol ar gynrychiolaethau o'r corff a chydberthynas; ac iechyd a llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol.

Bwriad y diweddariad hwn i'r canllawiau yw darparu cymorth ychwanegol i ysgolion o ran cynwysoldeb, LGBTQ+ a Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Bwriedir hefyd i'r canllawiau fod yn fwy cynhwysfawr nag o'r blaen, a chynnwys astudiaethau achos ac enghreifftiau o arferion gorau er mwyn cynorthwyo athrawon i gynllunio eu darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn yr ystafell ddosbarth ac ar draws yr ysgol. Mae fersiwn drafft y canllawiau wedi'i atodi i'r ymgynghoriad hwn.

### Cefndir

Mae deddfwriaeth bresennol y cwricwlwm yn ei gwneud yn ofynnol:

- bod pob disgybl oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu lleoliadau a gynhelir yn derbyn addysg rhyw
- os yw addysg rhyw yn cael ei darparu, bod y maes yn cynnwys addysgu am Glefydau a Drosglwyddir yn Rhywiol a HIV/AIDS
- i ysgolion cynradd ac uwchradd gael polisi ysgrifenedig sydd wedi'i gyhoeddi ar yr addysg rhyw y mae'n ei darparu.

Mae ysgolion yn cael eu cefnogi wrth ddarparu addysg rhyw drwy ganllawiau anstatudol; y rhain yw'r *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru* (2008) a'r canllawiau *Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion* (2010).

### Cwricwlwm Newydd

Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu cwricwlwm newydd yn sgil yr arolwg o'r cwricwlwm a threfniadau asesu gan yr Athro Graham Donaldson yn ei adroddiad 'Dyfodol Llwyddiannus.' Nododd yr Athro Donaldson bedwar diben addysg; bod pob person ifanc yn gadael yr ysgol fel

- Cyfranogwyr Mentrus, Creadigol;
- Dysgwyr Uchelgeisiol, Galluog;
- Unigolion Hyderus Iach;
- Dinasyddion Moesegol, Gwybodus

Yn ogystal, mae ei adroddiad yn nodi'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad sy'n ganolog i strwythur y cwricwlwm newydd, sef:

- Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Cynigir y bydd Addysg Pherthnasoedd a Rhywioldeb yn cael ei gynnwys fel elfen statudol o'r cwricwlwm newydd

### Polisïau'r Llywodraeth

Mae strategaeth *Ffyniant i Bawb* ac *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl* Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl allweddol iechyd a lles corfforol, emosiynol a meddwl da wrth helpu ein pobl ifanc i gyflawni'n academaidd a gwneud y gorau o'u cyfleoedd bywyd.

### Ffyniant i Bawb

Cyhoeddwyd *Ffyniant i Bawb* ym mis Medi 2017 ac mae'n amlinellu strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyflawni ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn, ac yn gosod y sylfeini iawn i fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu'r genedl. Gwella iechyd meddwl fel un o'i bump maes blaenoriaeth sydd â'r potensial mwyaf i gyfrannu at ffyniant a llesiant hirdymor. Mae darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel mewn ysgolion yn cyfrannu at y nod hwn drwy gefnogi pobl ifanc i ddatblygu'r adnoddau i ymdopi â'r byd sy'n newid yn gyflym o'u cwmpas. Mae'n eu helpu i feithrin perthynas foddhaus amrywiol ar sail ymddiriedaeth a pharch rhwng y naill a'r llall. Hefyd gall gynorthwyo athrawon i ymgysylltu â materion cymdeithasol ac emosiynol sy'n aml yn anodd eu trafod, a nodi'r dysgwyr hynny a allai fod angen cymorth pellach.

Mae *Ffyniant i Bawb* hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw cefnogi llesiant yn y blynyddoedd cynharaf; gan gydnabod bod y rôl y bydd unigolion yn ei phrofi yn eu plentyndod yn gallu cyfrannu at lywio eu dyfodol, gan effeithio ar eu cyfleoedd o fynd ymlaen i fyw bywyd iach, ffyniannus a llawn.

### Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl

Cyhoeddwyd *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth Ein Cenedl* ym mis Medi 2017 ac mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gwella'r system ysgol erbyn 2021; gan gynnwys cymorth ar gyfer elfennau o addysg sy'n cyfrannu at iechyd a llesiant dysgwyr. Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn cyfrannu at y gwaith o gynnal iechyd a llesiant dysgwyr.

## Pam ydym ni'n diwygio'r canllawiau hyn?

Ar 1 Mawrth 2017, sefydlodd y Gweinidog Addysg Banel o Arbenigwyr, a oedd yn cael ei gadeirio gan yr Athro Emma Renold o Brifysgol Caerdydd. Roedd y panel yn cynnwys

cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau sy'n cefnogi ysgolion i ddarparu Addysg Rhyw a Pherthnasoedd. Cyhoeddwyd eu hadroddiad ar 14 Rhagfyr. Roedd y cylch gorchwyl ar gyfer y panel arbenigwyr yn cynnwys bod ei aelodau yn nodi ffyrdd effeithiol i blant, pobl ifanc ac ymarferwyr lywio'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y dyfodol, fel rhan o Faes Iechyd a Llesiant Dysgu a Phrofiad.

Datgelodd y panel arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fod ansawdd darpariaeth Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn anghyson ledled ysgolion yng Nghymru. Tra bod rhai ysgolion yn cynnig darpariaeth ansawdd uchel ar gyfer eu dysgwyr, mae'r hyn y mae nifer yn ei gynnig yn gyfyngedig o ran ei ffocws biolegol, gyda diffyg cynwysoldeb ac yn aml heb gynnwys meysydd blaenoriaeth dysgu megis Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig. Gwnaeth y panel 11 argymhelliad, ac yn eu plith y dylid gwneud Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn rhan statudol o'r cwricwlwm newydd ar gyfer yr holl ddysgwyr 3-16 oed ac y dylid ei ailenwi yn Addysg Rhywioldeb a Chydberthynas.

Ar 22 Mai 2018, gwnaeth y Gweinidog Addysg ddatganiad yn derbyn argymhellion y Panel Arbenigwyr Rhyw a Pherthnasoedd. Fel rhan o'r datganiad hwn, ymrwymodd Ysgrifennydd y Cabinet i newid enw'r maes astudio hwn i 'Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb', gyda hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau sydd wedi'u diweddaru ar gyfer y cwricwlwm presennol.

Trwy wneud hyn rydym yn sicrhau ei fod yn gyson â diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o "rywioldeb", sy'n pwysleisio pwysigrwydd datblygu dealltwriaeth gyfannol o'r ffactorau a all effeithio ar les corfforol, meddwl ac emosiynol pobl ifanc yng Nghymru; megis materion diwylliannol, hanesyddol, biolegol a chymdeithasol. Wrth dderbyn y newid hwn yn yr enw, mae "cydberthynas" wedi'i osod yn gyntaf, i ddangos pwysigrwydd canolog "cydberthynas iach" i'r maes astudio hwn.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn deillio o adroddiad "*Informing the future of the Sex and Relationships Curriculum in Wales*" y Panel Rhyw a Chydberthynas.

https://www.cardiff.ac.uk/research/explore/find-a-project/view/1026193-informing-the-future-of-the-sex-and-relationships-curriculum-in-wales

Bwriedir i'r canllawiau hyn hefyd ddatblygu'r maes astudio i gysoni'n well ag ethos a strwythur y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Bydd y cwricwlwm newydd yn statudol ar gyfer ysgolion cynradd a blwyddyn gyntaf yr ysgol uwchradd o 2022; yna bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol ar gyfer pob grŵp blwyddyn tan 2026. Felly, bydd y canllawiau hyn yn berthnasol tan y bydd blwyddyn olaf y cwricwlwm presennol yn cael ei ddarparu mewn ysgolion (2026).

## Beth sydd wedi newid yn y canllawiau diwygiedig?

Nod y canllawiau diwygiedig ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yw darparu cymorth ymarferol i athrawon a staff ysgol er mwyn iddynt feithrin darpariaeth Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb o ansawdd uchel. Mae'r canllawiau hyn yn fwy cryno na'r rhai cynt ac yn cynnwys dolenni cyfeirio defnyddiol i athrawon a staff ysgolion eu defnyddio. Gall y dolenni hyn gefnogi wrth gynllunio darpariaeth neu helpu dysgwyr i chwilio am wybodaeth ychwanegol ar bynciau/materion y gallant fod yn eu profi.

Lluniwyd y canllawiau hyn yn 2010 ac mae llawer o newidiadau wedi bod mewn deddfwriaeth ers hynny, yn bennaf, cyflwyno Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin

Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2015. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â thrais domestig yn erbyn pawb yng Nghymru, beth bynnag eu rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menyw neu ddyn sy'n deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion sy'n gysylltiedig â rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid oes terfyn oedran ar y Ddeddf, felly mae plant sy'n tystio neu brofi trais neu gam-drin o'r fath a phobl hŷn wedi'u cynnwys. Mae'r Ddeddf hefyd yn canolbwyntio ar addysg ac mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol adrodd ar sut maent yn mynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys mewn ysgolion wrth iddynt ddarparu addysg perthynas iach.

O fewn y canllawiau wedi'u diweddaru, rydym wedi cynnwys egwyddorion allweddol i dywys ymarferwyr wrth iddynt baratoi eu darpariaeth ar gyfer Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Mae'r canllawiau hyn wedi'u llunio i fod yn hawdd i'w defnyddio. Mae'n ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn wybodus, yn hawdd eu defnyddio a hyblyg; gan alluogi ymarferwyr i lunio a chynllunio gwersi sy'n berthnasol a phriodol ar gyfer eu dysgwyr.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u strwythuro hefyd i gefnogi ysgolion i weithredu "dull ysgol gyfan" o ran Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, gan sicrhau bod ysgolion yn gallu creu cysylltiadau ystyrlon rhwng eu darpariaeth cwricwlwm a pholisïau ysgol ehangach, ethos, ymddygiadau a chyfathrebu sy'n effeithio ar lesiant. Mae hyn yn cynnwys:

- polisi gwrthfwlio;
- diogelu;
- atal trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig;
- iechyd corfforol.

Mae'r drafft o'r canllawiau wedi'u diweddaru yn cynnwys gwybodaeth am bynciau fel diogelu, bwlio, Trais yn Erbyn Menywod Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ac maent yn cynnwys dolenni cyfeirio at sefydliadau sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor arbenigol ar bynciau penodol. Mae'r canllawiau wedi'u diweddaru hefyd yn cynnwys astudiaethau achos gan Estyn, sefydliadau trydydd sector ac ysgolion yng Nghymru; sy'n rhoi enghreifftiau o arferion gorau wrth ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Er bod y canllawiau wedi'u diweddaru yn annog ysgolion i feddwl yn fwy cyffredinol am y ffordd y maent yn integreiddio'r maes astudio hwn i'r cwricwlwm, nid yw'n newid ei ymrwymiadau statudol. Mewn deddfwriaeth, mae'r cyfeiriad at gynnwys addysg rhyw yn y cwricwlwm ysgol.

Mae'r drafft diwygiedig o'r Canllawiau ar Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi'i atodi i'r ymgynghoriad hwn, ac rydym yn croesawu eich adborth a'ch safbwyntiau chi a'ch dysgwyr arnynt.